

Urddas Mislif

Cynllun Gweithredu Strategol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Crynodeb o'r ymatebion:
Fersiwn Pobl Ifanc

Rhif: WG45808



Barn ar y Cynllun Gweithredu Strategol Urddas Mislif

Y Cynllun Gweithredu Urddas Mislif yw cynllun y Llywodraeth ar gyfer gwella mislifoedd i bobl yng Nghymru. Mae urddas mislif yn ymwneud â:

- Dylai pobl allu cael y nwyddau mislif sydd ei angen arnynt
- Ni ddylai pobl deimlo cywilydd am gael eu mislif
- Dylai pawb gael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, busnesau, sefydliadau ac eraill i greu Urddas Mislif dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn golygu cael gwared ar unrhyw ymdeimlad o stigma a chywilydd ynghylch mislifoedd. Bydd hefyd yn golygu helpu pobl i ddeall bod mislif yn normal ac yn iach, a sicrhau bod gan bawb yr hyn sydd ei angen arnynt i reoli eu mislif a does neb yn wynebu tloedi mislif.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bobl ddweud beth oedden nhw'n ei feddwl am y cynllun. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn ddywedodd pobl.

Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar 20 Hydref 2021 a daeth i ben ar 12 Ionawr 2022.

Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

[Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o **250 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn**, gan unigolion a sefydliadau.

Cefnogaeth i'r Cynllun



Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r syniadau yn y cynllun. Roedden nhw o blaid mwy o ymdrech i wneud yn siŵr bod gennym ni urddas mislif yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r weledigaeth am urddas mislif ac roedden nhw'n cefnogi mwy o ymdrech i sicrhau urddas mislif yng Nghymru. Roedd mwy na dwy ran o dair o'r bobl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad yn cytuno'n glir gyda'r weledigaeth gafodd ei nodi yn y cynllun.

Dywedodd yr ymatebwyr bod yn rhaid i'r cynllun ddefnyddio iaith glir a dylai gael ei rannu'n eang. Fe wnaethon nhw awgrymiadau ar sut y gellid cysylltu'r cynllun â'r hyn sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion. Roedd llawer o'r ymatebwyr eisiau i Lywodraeth Cymru ac eraill sicrhau bod gan bawb fynediad at nwyddau mislif sydd eu hangen arnynt, yn enwedig y rhai sy'n ei chael hi'n anodd fforddio nwyddau mislif. Dywedodd llawer o bobl y dylid canolbwyntio ar ddarparu nwyddau ecogyfeillgar. Thema arall yn yr ymatebion oedd yr angen i daclo embaras a stigma ynghylch mislifoedd.

Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr eisiau mwy o fanylion am yr hyn sy'n digwydd nesaf gan gynnwys mwy ar y camau nesaf a sut y byddai'r cyfan yn cael ei ariannu.

'Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn generig iawn. Mae angen gwneud mwy o waith i roi'r awgrymiadau hyn ar waith go iawn. Pa gyllid fydd yn cael ei roi ar waith i helpu ysgolion a busnesau i roi'r camau hyn ar waith mewn gwirionedd? Pa hyfforddiant fydd yn cael ei ddarparu i helpu i weithredu'r addewidion hyn?'

Defnydd iaith



Gofynnodd ymatebwyr i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r geiriau 'merched' a 'menywod' yn y cynllun, yn lle 'pobl sy'n cael mislif'.

Roedd gan lawer o'r ymatebwyr farn gref am y **defnydd o iaith** yn y cynllun. Mae'r cynllun gweithredu yn defnyddio'r termau 'menyw' a 'merch' ond mae hefyd yn dweud 'er mwyn bod yn gynhwysol, defnyddir y term "person sy'n cael mislif" yn fwyaf aml i gwmpasu pawb y mae'r cynllun hwn yn effeithio arnynt'.

Ar draws yr holl ymatebion i'r cwestiynau, cododd traean o'r ymatebwyr bryderon am y defnydd o iaith a'r diffyg cyfeiriadau at fenywod a merched. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyfeirio yn benodol at fenywod a merched yn y cynllun. Dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn poeni bod peidio enwi menywod a merched yn anghywir, yn 'dad-ddynoli' ac yn creu risg o greu 'gair llednais newydd ynghylch y mislif'. Roedden nhw'n codi pryderon bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn annelwig, yn ddrislyd ac yn anodd i'w deall, yn enwedig yn fersiwn hawdd ei darllen o'r cynllun.

'Peidiwch â dileu menywod o'n materion iechyd ni ein hunain. Nid yw'n iaith gynhwysol os ydym yn cael ein gwthio i'r neilltu. Iaith gynhwysol fyddai "benywaidd" neu "menywod, dynion traws ac anneauidd". Mae iechyd menywod yn ymwneud yn benodol â menywod – nid pobl. Os na chyfeirir atom fel menywod ni fydd y neges yn cyrraedd menywod.'

Codi ymwybyddiaeth



Dywedodd yr ymatebwyr ei bod hi'n bwysig gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o urddas mislif.

Codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion: Thema allweddol dros yr atebion i'r ymgynghoriad oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth a chynnwys urddas mislif fel rhan o addysg. Dylai gael ei ddysgu mewn ysgolion i bawb.

Codi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd, a lleihau stigma: Nododd yr ymatebwyr fod angen camau gweithredu i leihau'r embaras a'r stigma sydd weithiau yn gysylltiedig â'r mislif ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Dywedon nhw y dylai fod camau gweithredu ynghylch newid polisi yn y gweithle ynghylch mislifoedd.

Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr iechyd: Dywedodd nifer fechan o'r ymatebwyr y dylid canolbwyntio ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ymarferwyr iechyd. Rhannodd rhai ymatebwyr eu profiadau o ddelio â gweithwyr iechyd, ac achosion lle na chawsant y cyngor neu'r driniaeth yr oedd eu hangen arnynt. Roedd yr ymatebwyr yn argymhell ei gwneud hi'n haws cael mynediad at arbenigwyr, mwy o ymchwil i iechyd mislif a sicrhau bod gan feddygon teulu y wybodaeth ddiweddaraf am faterion iechyd menywod gan gynnwys mislifoedd.

'Mae angen gwneud mwy o ran sicrhau bod gweithleoedd yn cyflwyno polisiau am y mislif. Mae rhai rheolwyr yn gydymdeimladol ond nid felly eraill. Dylai polisiau fod ar waith i sicrhau hyblygrwydd yn ystod y mislif. Ni fydd cyflogwyr (yn y rhan fwyaf o achosion) yn gwneud hyn oni bai y bydd y llywodraeth yn ei orfodi.'

'Mae angen mwy o addysg am beth yw mislif iach a phryd i weld meddyg. A mwy o addysg i feddygon ar fislif iach.'

Mynediad at nwyddau



Dywedodd yr ymatebwyr ei bod hi'n bwysig bod y rhai sydd angen nwyddau mislif am ddim yn gallu cael gafael arnynt. Roedd yr ymatebwyr yn poeni am bobl sydd ddim yn gallu fforddio nwyddau mislif. Dywedon nhw fod hyn yn rhan o broblem fwy o dlodi ehangach.

Dywedodd yr ymatebwyr bod mynediad at nwyddau mislif am ddim yn bwysig i'r rhai sydd eu hangen. Roedd yr ymatebwyr yn poeni am bobl sydd ddim yn gallu fforddio nwyddau mislif. Dywedon nhw fod hyn yn rhan o broblem fwy o dlodi.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynllun bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn gallu cael gafael ar nwyddau mislif am ddim mewn mannau y maent fwyaf tebygol o fynychu. Roedd yr ymatebwyr yn credu y gallai rhoi mynediad am ddim i bawb dynnu'r stigma a'r embaras o fod angen gofyn am y nwyddau. danynt. Aethant ymlaen i ofyn bod unrhyw nwyddau am ddim yn ystyried gwahaniaethau diwylliannol, dewisiadau personol unigolion ac anghenion pobl anabl.

Roedd yr ymatebwyr hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod y cynllun yn ystyried anghenion pawb ac yn cyrraedd pawb, gan gynnwys cymunedau o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, y rhai sydd ag awtistiaeth a phobl o wahanol grefyddau. Roedd pobl ddigartref, a'r rhai sy'n dioddef o gam-drin domestig yn grwpiau eraill a allai fod angen eu cynnwys yn well yn y cynllun.

'...mae'n bwysig deall bod dulliau sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd yn gyntaf i gael ymyriadau tlodi mislif ... yn debygol o allgau rhai pobl a allai elwa o gael mynediad am ddim at nwyddau mislif ac sydd angen cael mynediad at wybodaeth am y mislif ac iechyd mislif. Rhaid sicrhau bod ffynonellau gwybodaeth all-lein ar gael a'u bod yn cael eu hyrwyddo'n dda.'

'Mae tlodi mislif yn fater difrifol a dwi wedi gweld hyn gyda ffrindiau pan o'n i yn yr ysgol, mae'n hynod o chwithig i bobl sydd jest methu fforddio nwyddau mislif..... Mae'n rhaid cael ffordd syml o gael mynediad at nwyddau mislif drwy beidio â chreu teimlad o gywilydd.'